# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Hedd**

**Penrhyn Avenue**
**Bangor**
**LL57 1LT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Plas Hedd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Hydref 2019 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Plas Hedd, eu teuluoedd a'u ffrindiau yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae'r staff yn dangos dull gofalgar tuag at y bobl sy'n byw yn y cartref ynghyd â dealltwriaeth dda o anghenion y bobl. Ysgrifennir cynlluniau personol o safbwynt yr unigolyn gan nodi hoff bethau, cas bethau a dewisiadau'r bobl a chaiff asesiadau risg yng nghynlluniau personol y bobl eu diweddaru'n briodol. Mae'r staff gofal yn rhoi cymorth yn newis iaith y bobl, boed hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg a chaiff cynlluniau personol eu hysgrifennu yn eu dewis iaith.

Mae'r staff yn hapus yn gweithio yn y cartref ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr. Mae Unigolyn Cyfrifol newydd wedi'i benodi y mae'r staff yn ei adnabod yn dda ac a gaiff ei ddisgrifio fel unigolyn *“approachable”.* Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i fonitro a gwella'r gwasanaeth ymhellach.

Mae amgylchedd y cartref yn gartrefol, yn lân ac yn gynnes. Gwelsom ystafelloedd a oedd newydd gael eu hadnewyddu ac a oedd yn cynnwys eitemau personol ac eitemau cofiadwy'r bobl. Mae cynlluniau ar waith i ehangu'r uned dementia ac i osod arwyneb newydd yn yr ardd er mwyn i'r bobl eistedd yn yr awyr agored yn ystod y misoedd cynhesach.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn cael gofal gan staff sy'n ymwybodol o'u hoff bethau, eu cas bethau a'u dewisiadau. Mae'r bobl yn disgrifio'r staff fel *"lovely"* a *"very nice."* Gwelsom y cogydd yn gofyn i bob preswylydd a oedd yn hoffi bwydlen y dydd ac yn cynnig opsiynau amgen os oedd am gael opsiwn amgen. Mae'r holl staff yn y cartref yn adnabod y bobl yn dda, yn darparu gofal llawn amynedd a charedigrwydd ac yn dangos ymagwedd gyfeillgar, sy'n aml yn arwain at dynnu coes a chwerthin. Mae'r cynlluniau personol yn gyfredol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd ac mae asesiadau risg ar waith yn ffeiliau'r bobl. Gwelsom weithgareddau yn cael eu cynnal ar ddiwrnod yr arolygiad gyda phobl yn cael dewis i gymryd rhan ai peidio. Mae rhaglen wythnosol yn cael ei harddangos yn y cartref sy'n dangos pa weithgareddau a gynhelir drwy gydol yr wythnos. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom y staff a'r preswylwyr yn canu caneuon a ddewiswyd gan y bobl a oedd yn rhan o'r gweithgaredd. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn gweithio yn y cartref. Mae croeso i bobl ymweld â'r cartref ac mae'r amgylchedd yn galluogi pobl i dreulio amser preifat â'u perthnasau a'u hanwyliaid. Mae'r bobl yn dewis ble yr hoffent dreulio eu hamser, boed hynny yn eu hystafelloedd eu hunain sy'n cynnig preifatrwydd neu mewn ardaloedd cymunedol amrywiol yn y cartref.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Gwelsom atgyfeiriadau amserol i wasanaethau iechyd i'w cadw'n ddiogel. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer diogelu ac maent yn hyderus wrth godi unrhyw bryderon â'r tîm rheoli. Cwblheir gwiriadau cyn cyflogi cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y cartref er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae'r staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd gan y tîm rheoli ac mae trefniadau ar waith i bob aelod o'r staff fynd ar gyrsiau hyfforddiant gloywi i sicrhau bod eu gwybodaeth am amodau iechyd gwahanol, diogelu a chodi a chario yn gyfredol.

Mae amgylchedd y cartref yn lân ac yn cynnig digon o le i'r bobl symud o gwmpas fel y mynnont. Mae ardaloedd yn y cartref wedi'u haddurno er mwyn i'r bobl hel atgofion. Gwelsom un wal benodol ar gyfer tîm pêl-droed Dinas Bangor, un arall yn benodol ar gyfer cerddoriaeth y chwedegau a llyfrau comic, ardal lle gellir eistedd i grosio neu wau a siop er mwyn i'r bobl allu prynu nwyddau bob dydd yn y cartref. Mae dewis o ardaloedd cymunedol i'r bobl dreulio eu diwrnodau. Mae gwaith wedi dechrau i ehangu'r uned dementia ac mae gwaith yn mynd rhagddo i osod arwyneb newydd yn yr ardd. Bydd hyn yn galluogi'r bobl i fynd i eistedd yn yr awyr agored yn ddiogel os byddant am wneud hynny.

## Gofal a Chymorth

Caiff rhag-asesiad llawn ei gwblhau cyn i'r bobl symud i'r cartref. Caiff gwybodaeth ei chasglu gan y tîm rheoli gan y bobl, eu teuluoedd neu eu cynrychiolwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a Gweithwyr Cymdeithasol er mwyn meithrin dealltwriaeth glir o anghenion y bobl a sut i'w cefnogi'n ddiogel. Roedd y cynlluniau personol a'r asesiadau risg a welwyd yn ystod yr arolygiad yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu ar ôl unrhyw newidiadau i anghenion y bobl. Mae'r staff yn diwallu anghenion y bobl heb ruthro ac mae ganddynt agwedd ofalgar tuag atynt. Caiff cofnodion dyddiol y bobl eu diweddaru yn dilyn ymyriadau gan y staff ac maent yn dangos bod y bobl yn cael cymorth ar adegau o'u dewis.

Ysgrifennir y cynlluniau personol o safbwynt y person gan sicrhau bod eu hoff bethau a'u cas bethau yn amlwg. Caiff rhannau o'r cynlluniau personol eu diweddaru'n rheolaidd gan y tîm rheoli er mwyn gwneud yn siŵr bod y staff yn gwybod sut i ofalu am y bobl yn gywir. Mae'r staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a'r polisi diogelu. Mae'r aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus y gallant godi unrhyw faterion neu bryderon â'r tîm rheoli. Gwelsom gydweithio da rhwng y tîm rheoli a'r gwasanaethau iechyd. Gwnaethom siarad â'r gweithwyr iechyd a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth a ganmolodd y staff am eu *“quick and efficient communication.”* Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i iechyd neu lesiant y bobl. Caiff meddyginiaeth ei storio'n gywir, a gwelwyd bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal mewn perthynas â meddyginiaethau yn ystod yr hapwiriadau a gynhaliwyd fel rhan o'r arolygiad.

Mae’r bobl yn hapus yn byw yng nghartref Plas Hedd. Dywedodd un unigolyn wrthym *“They (staff) are marvellous”* a *“Dwi wrth fy modd yma.”* Mynegodd y teuluoedd eu bodlonrwydd o ran y gofal a'r cymorth a roddir yng nghartref Plas Hedd. Dywedodd un aelod o deulu *“My family member is safe and well looked after. Care is really good here.”*

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd hamddenol, glân a chynnes, sy'n hyrwyddo ymdeimlad y bobl o berthyn. Mae awyrgylch cartrefol yng nghartref Plas Hedd ac mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn mwynhau cymdeithasu yn yr ardaloedd cymunedol yn y cartref. Caiff y bobl eu hannog i ddod ag eitemau personol i'r cartref i wneud eu hystafelloedd mor gartrefol â phosibl. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod wrth eu bodd â'u hystafelloedd. Mae digon o ystafelloedd ymolchi a thoiledau ym mhob rhan o'r cartref ac maent yn lân ac mewn cyflwr da. Gall y bobl eistedd a chymdeithasu mewn lolfa fawr ac ystafell fwyta fawr. Mae ardaloedd penodol o'r amgylchedd wedi'u haddurno gyda'r bwriad o annog pobl i hel atgofion. Mae'r waliau wedi'u haddurno'n unol â themâu gwahanol, fel Clwb Pêl-droed Dinas Bangor, Tîm Rygbi Cenedlaethol Cymru, The Beatles a llyfr comic y Beano. Mae ardaloedd eistedd yn y cynteddau gyda'r bwriad o annog y bobl i eistedd a gwau. Mae siop yn y cartref i'r bobl ei defnyddio a phrynu nwyddau dyddiol. Esboniodd y rheolwr fod y siop ar agor unwaith y diwrnod a bod y bobl yn mwynhau ei defnyddio. Mae cynlluniau ar waith i ychwanegu wyth ystafell wely ychwanegol yn yr uned dementia ac mae gwaith yn mynd rhagddo y tu allan i osod arwyneb newydd yn yr ardd er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel i'r bobl fynd i eistedd yn yr awyr agored.

Gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn byw mewn amgylchedd diogel. Wrth gyrraedd y cartref, cynhaliodd y staff y gwiriadau adnabod priodol er mwyn cadarnhau pwy oeddem a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr cyn cael mynediad i'r cartref. Mae darnau mawr o ddodrefn wedi'u hatodi'n ddiogel wrth y wal er mwyn atal unrhyw anafiadau i breswylwyr ac mae amrywiaeth o gyfarpar i ddiwallu anghenion y bobl gan gynnwys teclynnau codi, cadeiriau breichiau arbennig a matresi sy'n lleddfu pwysedd. Roedd yr holl declynnau codi wedi'u gwasanaethu'n ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac roedd pob tystysgrif diogelwch nwy, trydan a thân ar gael. Mae mannau storio diogel ar gael ar gyfer eitemau a fyddai'n achosi risg i'r bobl fel meddyginiaeth neu gemegion. Cafodd y cartref sgôr hylendid bwyd o bump, sef y sgôr orau posibl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â chartref Plas Hedd yn rheolaidd ac mae'n goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ei fod yn *'easy to talk to'* a chafodd ei ganmol am fod yn gefnogol. Mae'r cofnodion yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i siarad â'r bobl a'r staff er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth. Gwelsom gofnodion o ymweliadau ffurfiol gan yr Unigolyn Cyfrifol wedi'u dogfennu fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

Mae'r staff wedi cael hyfforddiant craidd ac mae trefniadau ar waith i'r staff fynd ar gyrsiau gloywi i sicrhau bod eu gwybodaeth am bynciau craidd fel diogelu a chyflyrau iechyd y bobl yn gyfredol. Esboniodd y tîm rheoli fod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd a bod y weithdrefn ddiogelu yn cael ei thrafod fel rhan o'r broses honno. Mae hyn er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am y polisi chwythu'r chwiban a'u bod yn hyderus wrth godi unrhyw bryderon yn y cartref. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cymryd o gyfarfodydd staff rheolaidd lle rhoddir cyfle i'r staff gael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth a chyfle i godi unrhyw bryderon neu faterion. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, a bod y staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel cyn dechrau yn eu swydd. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys geirdaon a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn cael eu cwblhau cyn i unigolion ddechrau gweithio. Mae'r gwiriadau hyn yn bwysig gan eu bod yn cadarnhau a yw unigolyn yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae'r bobl yn hapus yn gweithio yng nghartref Plas Hedd ac mae rhai aelodau o'r staff wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Caiff aelodau newydd o'r staff gyfnod sefydlu trylwyr ac maent yn cael hyfforddiant gorfodol cyn dechrau gweithio. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyflogi gweithwyr asiantaeth er mwyn sicrhau nifer digonol o staff gan fod aelodau o'r staff wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Cawsom sicrwydd gan y tîm rheoli nad oes unrhyw effaith ar effeithiolrwydd y gwasanaeth a bod trefniadau ar waith i ddefnyddio staff rheolaidd o'r asiantaeth gofal er mwyn darparu parhad gofal i'r preswylwyr.

Mae'r Datganiad o Ddiben yn rhoi gwybodaeth gyfredol glir i'r bobl am y gwasanaeth, y cyfleusterau sydd ar gael a'r modd y caiff gofal ei ddarparu. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg am ei fod yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Esboniodd y rheolwr fod pob aelod o'r staff yn meddu ar sgiliau i ddarparu gofal yn Gymraeg os bydd y bobl am gael hynny, ac y gall y bobl ddewis cael eu cynlluniau gofal wedi'u hysgrifennu yn eu dewis iaith.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/09/2023